COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 18 MEHEFIN 2026 AM 10:00

Presennol yn Rhithwir

A Bagley – Is-gadeirydd (yn y gadair)

Presennol

| | |
|---|---|
| S Easterbrook | M L Hughes |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| RM Granville | O Clatworthy | RL Penhale-Thomas | A R Berrow |
| J Llewellyn-Hopkins | | | |

Aelodau Lleyg - Presennol yn Rhithwir

| | | |
|---|---|---|
| D Austin | G Chapman | B Olorunnisola |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |
| Joanne Norman | Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro |

| | |
|---|---|
| David Williams | Archwilio Cymru |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cymorth/ Aelodau a Maer |

## 296. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod ar 21 Mai 2026 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Mehefin 2026 |

## 297. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Nodwyd bod yr Aelodau wedi derbyn diweddariad drwy e-bost cyn y cyfarfod mewn perthynas â'r mater canlynol:<br><br>**10 Mehefin 2026:** Harbwr Porthcawl. Yr adroddiad blynyddol, a gyflwynwyd i'r Cabinet ac a nodwyd ganddo yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2026.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau y materion canlynol:<br><br>• A ymgynghorwyd â'r Swyddog Monitro ynglŷn â rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd i wneud mân newidiadau i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ôl yr angen, ac i adrodd am y rhain fel rhan o gyflwyniad blynyddol y Cod i'r Pwyllgor. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid nad oedd cyfle wedi codi eto i drafod y mater ond y byddai ganddi ymateb mewn pryd ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br>• Nid oedd y Cadeirydd o'r farn bod yr Adroddiad Blynyddol ar Harbwr Porthcawl, a aeth i'r Cabinet ym mis Mawrth 2026 ac a anfonwyd ymlaen at yr Aelodau ar 10 Mehefin, wedi rhoi'r sicrwydd yr oedd ei angen ar y Pwyllgor a chynigiodd y dylid trafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf. Ychwanegodd ei fod yn credu y byddai'n briodol gwahodd yr Arweinydd i'r cyfarfod. Mewn ymateb, nododd yr Is-gadeirydd mai trafod y mater o dan eitem sylweddol ar yr agenda fyddai'r ffordd orau ymlaen.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredoedd a chytunodd i ychwanegu Harbwr Porthcawl at agenda'r cyfarfod ar 16 Gorffennaf fel eitem i'w thrafod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Mehefin 2026 |

## 298. Asesiad Busnes Hyfyw

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd hysbysu'r Pwyllgor am asesiad y Swyddog Adran 151 (a151) (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid) o'r Cyngor fel 'Busnes Hyfyw' at ddibenion cynhyrchu Datganiad Cyfrifon 2025-26.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau y materion canlynol:<br><br>• O ran sefyllfa ariannol ragamcanol y Cyngor, lle roedd y sefyllfa'n parhau i fod yn heriol wrth fynd ymlaen, gyda'r gyllideb ar gyfer 2026-27 wedi'i chydbwyso ar sail arbed £2.348 miliwn trwy ostyngiadau yn y gyllideb a chynnydd o 4.7% yn y dreth gyngor, gofynnodd Aelod am y sefyllfa bresennol. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid ei bod braidd yn gynnar i wybod y sefyllfa bresennol ond y byddai adroddiad cyllideb ar gyfer y chwarter cyntaf yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf. Nododd fod swyddogion yn monitro sefyllfa'r gyllideb yn agos iawn.<br>• Nododd yr Is-gadeirydd fod yr adroddiad yn honni bod gan y Cyngor brosesau cadarn ar hyn o bryd i gefnogi'r broses o gynllunio'r gyllideb ond gofynnodd sut roedd hynny'n hysbys. Awgrymodd y |

| | |
|---|---|
| | byddai'r adroddiad yn cael ei gryfhau trwy gynnwys geiriad ychwanegol i egluro hyn. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid ei bod hi'n cytuno.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ganlyniad yr asesiad o statws busnes hyfyw y Cyngor at ddibenion paratoi Datganiad Cyfrifon 2025-26. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Mehefin 2026 |

## 299. 'Ymholiadau Archwilio i Reolwyr a'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu' gan Archwilio Cymru ar gyfer Archwiliad 2025-26

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Pwrpas yr adroddiad oedd darparu'r llythyr 'Ymholiadau archwilio i reolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor, a oedd yn gofyn nifer o gwestiynau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Cyngor, i'w cwblhau erbyn 30 Mehefin 2026.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau y materion canlynol:<br><br>• A fyddai'r system rheoli asedau newydd yn ymgorffori prisiadau'r asedau hynny yn awtomatig. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod y system newydd wedi'i dewis ond y bwriad oedd ei disodli ar sail tebyg am debyg cyn ystyried ei ehangu i gwmpasu elfennau ychwanegol fel prisiadau. Roedd prisiadau o hyd yn cael eu cynnal gan ddefnyddio taenlen ond roedd bwriad i symud i broses fwy awtomataidd yn y dyfodol. Nid oedd amserlen ar gyfer hynny ar hyn o bryd.<br>• Ymateb y Cyngor i'r farn Sicrwydd Cyfyngedig ar gyfer rheoli risg. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid fod swyddogion wedi ymgysylltu â'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i wneud gwaith ar hyn, a'u bod ar hyn o bryd yn adolygu adroddiad Archwilio Cymru. Yn benodol, gofynnodd iddynt wneud rhywfaint o waith gydag Aelodau a swyddogion ar fater parodrwydd i dderbyn risg. Roedd hi'n gobeithio y byddent yn dod â phersbectif newydd i hyn ac yn dod â'r profiad o fod wedi gwneud mathau tebyg o waith gydag awdurdodau lleol eraill. Byddai'r adroddiad sy'n deillio o hynny yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor |

<table>
<tr><td></td><td>Llywodraethu ac Archwilio yn y dyfodol.<ul><li>Gofynnodd Aelod faint o arian trethdalwyr oedd wedi'i golli o ganlyniad i'r twyll a drafodwyd yn flaenorol ynghylch cynwysyddion cludo, a'r taliad a wnaed, nad oedd modd ei adfer, gan ysgol gyfun i gyflenwr a ddefnyddiwyd yn flaenorol, lle newidiwyd y manylion banc ar flaen yr anfoneb. Mewn ymateb, cadarnhaodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd mai cyfanswm y swm a gollwyd oedd tua £4,500. Ar ben hynny, gofynnodd yr Aelod pa fesurau oedd wedi'u rhoi ar waith i atal rhywbeth fel hyn rhag digwydd yn y dyfodol. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid fod y Pwyllgor yn gweld Strategaeth Twyll y Cyngor yn flynyddol a bod unrhyw broblemau yn cael eu hadrodd i'r Aelodau. Roedd hi'n credu bod dulliau'r Cyngor ar gyfer delio â thwyll yn gadarn ond, o ystyried ei fod yn sefydliad â throsiant o hanner biliwn o bunnoedd, byddai achosion bach o dwyll yn digwydd. Pan ddigwydd twyll, mae proses ar waith i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu. Ychwanegodd mai'r allwedd i leihau twyll yn y rhan fwyaf o achosion oedd hyfforddi staff, codi ymwybyddiaeth, a rheolaethau llymach ar gymeradwyo taliadau.</li><li>Nododd yr Is-gadeirydd, o ran rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor, mae'n debyg nad oedd yn ddigonol i staff gael mynediad i'r modiwl e-ddysgu Atal Twyll. Byddai'n dda gwybod mwy am gyfraddau cwblhau a dyddiadau targed. Felly, roedd o'r farn y gellid cryfhau'r ymateb yn yr achos hwnnw. Ar ben hynny, ychwanegodd yr Is-gadeirydd y gellid gwella'r ymateb mewn perthynas â phrosesau awdurdodi ar gyfer taliadau a wneir i drydydd partïon trwy ychwanegu mwy o wybodaeth amdanynt. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid y byddent yn gwella'r ymateb fel yr awgrymwyd.</li><li>Nododd y Cadeirydd ac Aelod Lleyg fod yna rai mân wallau clerigol yn yr ymateb y byddai angen eu cywiro cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru.</li></ul><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:<ul><li>Yr ymatebion i'r llythyr 'Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli a llywodraethu' gan Archwilio Cymru fel y'u hatodir yn Atodiad A.</li><li>Y byddai'r ymatebion i lythyr ymholiadau Archwilio Cymru yn destun adolygiad a chymeradwyaeth derfynol gan y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro ac y gallent gael eu diwygio cyn eu cyflwyno.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>18 Mehefin 2026</td></tr>
</table>

## 300. Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2025-26

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am waith a pherfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau y materion canlynol:<br><br>• Y farn sicrwydd cyfyngedig mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ac a oedd yr Aelodau wedi cael gwybod am hyn, o ystyried pwysigrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad. Nodwyd mai dim ond ar 14 Ebrill y daeth yr adroddiad ar gael. Mewn ymateb, nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMRh) y byddai hyn fel arfer wedi cael ei adrodd mewn adroddiad chwarterol ac felly ymddiheurodd mai dyma'r tro cyntaf i'r Aelodau weld y wybodaeth. Nododd fod cynllun gweithredu rheoli wedi'i gytuno gyda'r Ymddiriedolaeth ac y byddai'n adrodd ar gynnydd hynny maes o law. Ychwanegodd y Cadeirydd yn ddiweddarach yn y drafodaeth fod y materion llywodraethu a godwyd am yr Ymddiriedolaeth yn peri pryder mawr.<br>• Roedd Aelod yn credu ei bod yn werth nodi'r cynnydd cadarnhaol a wnaed dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf o ran nifer y barnau a oedd bellach yn sylweddol ac yn rhesymol. Nododd hefyd, o ran y farn sicrwydd cyfyngedig mewn perthynas â rheoli risg, tybed a fyddai byth yn bosibl dileu pob risg er mwyn cyrraedd y targedau ym mholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, ac felly rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd. Ychwanegodd mai'r eironi yma oedd bod rheoli risg yn beryglus. Meddyliodd tybed a oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gael sicrwydd rhesymol wrth reoli risg, neu a allai byth fod mewn sefyllfa i wneud hynny. Mewn ymateb i'r sylw ar reoli risg, nododd Pennaeth y GAMRh y gallai'r Cyngor gyflawni barn sicrwydd rhesymol, ac y gallai hyd yn oed gyflawni lefel sylweddol o sicrwydd pe bai'r holl reolaethau yn gryfderau ac nad oedd unrhyw wendidau. Yn dilyn hynny, gofynnodd yr Aelod, o ystyried y farn sicrwydd cyfyngedig, am wneud rheoli risg yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel y gallai'r Pwyllgor gefnogi swyddogion i gyrraedd sefyllfa lle gall y Cyngor gyflawni barn sydd o leiaf yn rhesymol. Mewn ymateb i hyn, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid, er na fyddai swyddogion fel arfer yn paratoi adroddiad i'w drafod mewn ymateb i farn sicrwydd cyfyngedig, o ystyried pwysigrwydd rheoli risg, fod hwn yn gais rhesymol.<br>• Yn dilyn hynny, nododd yr Is-gadeirydd fod rheoli risg yn gonglfaen i'r amgylchedd rheoli llywodraethiant ac y byddai'r Pwyllgor yn olrhain y camau gweithredu sy'n deillio o'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Roedd o'r farn y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y mater hwn fel rhan o'i gylch arferol.<br>• Nododd Aelod Lleyg ei bod yn hanfodol sicrhau nad oedd dull y Cyngor o reoli risg yn tanseilio'r amgylchedd rheoli cyfan, a bod angen rhoi sylw i adrodd ac olrhain y broblem a rôl y Pwyllgor yn hynny o beth. Mewn ymateb, nododd Pennaeth y GAMRh, fel rhan o'u proses, lle cafwyd barn sicrwydd cyfyngedig, y byddent yn cynnal archwiliad dilynol a byddai hynny'n debygol o fod yn y cynllun ar gyfer 2026-27. Roedd rheolwyr eisoes wedi cytuno i weithredu'r argymhellion yn unol â chynllun gweithredu'r rheolwyr, a bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid yn gweithio i weithredu'r argymhellion ychwanegol a wnaed gan archwilwyr allanol. Byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariadau maes o law.<br>• Yn dilyn hynny, gofynnodd yr Is-gadeirydd am y broses ddilynol ac a fyddai'n broses hollgynhwysfawr neu a fyddai'r ffocws ar y meysydd gwannach a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol. Mewn ymateb, nododd Pennaeth y GAMRh y byddai'r ffocws ar feysydd gwannach yn gyffredinol, a bod rhagdybiaeth gyffredinol wedi'i wneud bod y rheolaethau da yn dal i fod ar waith.<br>• Y Mesuriadau Perfformiad Allweddol a defnyddio Holiaduron Boddhad Cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth. Nododd y Cadeirydd ei fod yn credu bod angen llongyfarch y tîm yn y GAMRh am gyflawni 92% o'r archwiliadau arfaethedig, lle mai 80% oedd y targed. Awgrymodd y gallai'r targed perfformiad gael ei godi i 90% i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn heriol. Nododd yr Is-gadeirydd y gallai fod yn werth ystyried beth mae sefydliadau tebyg yn ei osod fel targed i ddarparu meincnod.<br>• Roedd argymhelliad heb ei weithredu o archwiliad ar Filltiredd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor yn 2022-23. Nodwyd y gall mynd i'r afael â'r risgiau a lleihau'r gwendidau a nodwyd mewn rhai archwiliadau gymryd mwy o amser nag a gynlluniwyd yn wreiddiol, yn enwedig lle gallai fod angen penodi staff newydd, lle roedd cyfyngiadau cyllideb, neu lle roedd angen rhoi system newydd ar waith. Derbyniodd Pennaeth y GAMRh y sylwadau am y mater hwn a nododd y byddai'r materion yn cael eu trafod ymhellach gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid a Thrawsnewid.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Ystyriodd a nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, gan gynnwys Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Mehefin 2026 |

## 301. Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol a Chynllun Seiliedig ar Risg 2026-27

<table>
<tr><td>Penderfyniad a Wnaed</td><td>Diben yr adroddiad oedd darparu'r Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol a'r Cynllun Archwilio Seiliedig ar Risg ar gyfer 2026-27 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Gofynnodd y Cadeirydd i ba raddau yr oedd y rhaglen arfaethedig o archwiliadau ar gyfer 2026-27 wedi deillio o ddadansoddiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gofynnodd hefyd, mewn perthynas ag Eitem 17 ar Gyfarfodydd Cyngor Hybrid, a fyddai’r holl Aelodau’n cael eu hymgynghori ynghylch eu pryderon. Yn olaf, mewn perthynas ag Eitem 21, adolygiad cydymffurfiaeth o Harbwr Porthcawl i gwblhau'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer 2025-26, gofynnodd a ellid ei ehangu gan fod pryderon o hyd ynghylch llywodraethu Harbwr Porthcawl.<br>• Seiberddiogelwch mewn Ysgolion (Eitem 27), ac a ellid rhannu mwy o fanylion am yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried gyda'r Pwyllgor. Nododd Dirprwy Bennaeth y GAMRh y byddai'n darparu'r wybodaeth angenrheidiol cyn gynted â phosibl.<br>• Y broses a ddefnyddiwyd i benderfynu pa archwiliadau a gafodd eu cynnal yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, a phwy wnaeth y penderfyniad hwnnw. Amlinellodd Pennaeth y GAMRh fanylion y broses a chadarnhaodd mai ei gyfrifoldeb ef oedd cadarnhau’r rhestr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w chymeradwyo.<br>• Awgrymodd Aelod Lleyg y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor weld canlyniad ymarfer mapio i ddeall yn well y berthynas rhwng y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Seiliedig ar Risg Blynyddol ar gyfer 2026-27.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Strategaeth Archwilio Mewnol (Atodiad A) a'r Cynllun Archwilio Seiliedig ar Risg (Atodiad B) Blynyddol ar gyfer 2026-27.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>18 Mehefin 2026</td></tr>
</table>

## 302. Blaenraglen Waith 2026-27

<table>
<tr><td>Penderfyniad a Wnaed</td><td>Pwrpas yr adroddiad hwn oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Blaenraglen Waith newydd ar gyfer 2026-27.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau gwpl o faterion:<br><br>• Harbwr Porthcawl. Cynigiodd aelod y gallai’r Harbwrfeistr gynnal sesiwn friffio i'r holl aelodau ar Harbwr Porthcawl, neu gellid trefnu bod yr Aelodau’n ymweld â’r Harbwr i ddeall yn well sut mae’n gweithredu. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai argymhelliad i ofyn am sesiwn friffio fod yn gam gweithredu o'r drafodaeth yng nghyfarfod mis Gorffennaf.<br>• Rheoli Risg. Cynigiwyd y gellid ychwanegu eitem sylweddol at agenda cyfarfod yn y dyfodol ar ôl i'r adroddiad gan ymgynghorwyr allanol gael ei gwblhau.<br>• Dilyniannu. Nododd Aelod Lleyg ei bod yn bwysig trefnu adroddiadau yn y fath fodd fel nad ydynt yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain. Dylai aelodau gael cyfle i elwa o ddarlun cronnol a chydgysylltiedig o'r materion sy'n wynebu'r Cyngor.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2026-27 a chytunodd i ychwanegu Harbwr Porthcawl at agenda’r cyfarfod ar 16 Gorffennaf fel eitem i'w thrafod.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>18 Mehefin 2026</td></tr>
</table>

## 303. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim<br><br>Gofynnwyd i'r aelodau nodi, oherwydd adnewyddu Siambr y Cyngor, y byddai'n rhaid cynnal y cyfarfod nesaf o bell. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Mehefin 2026 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:42.